Llywodraeth Cymru
Welsh Government

YSTADEGAU, DOGFENNU

# Amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth: 2023

Mae’r amcangyfrifon canol blwyddyn yn cyfeirio i’r boblogaeth ar 30 Mehefin o’r flwyddyn a gyfeiriwyd ati ac fe’u cyhoeddir yn flynyddol.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 15 Gorffennaf 2024

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 15 Gorffennaf 2024

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad

Prif bwyntiau

Cydrannau newid poblogaeth

Poblogaeth yn ôl oedran

Poblogaeth yn ôl awdurdod lleol

Amcangyfrifon poblogaeth seiliedig ar ddata gweinyddol

Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU

Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

Manylion cyswllt

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Cyflwyniad

Mae'r amcangyfrifon canol-blwyddyn yn cyfeirio at y boblogaeth ar 30 Mehefin yn y flwyddyn gyfeirio ac maent yn cael eu cyhoeddi'n flynyddol.

Mae'r **Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG) wedi cyhoeddi amcangyfrifon poblogaeth canol 2023 ar gyfer Cymru a Lloegr** gyfan. Mae'r bwletin hwn yn cyfeirio'n benodol at amcangyfrifon ar gyfer Cymru.

Mae amcangyfrifon ar gyfer canol 2022 wedi cael eu diwygio gan y SYG i gyfrif am amcangyfrifon wedi'u diweddaru o fudo rhyngwladol i Gymru a Lloegr. Mae hyn yn golygu bod **poblogaeth Cymru yng nghanol 2022** bellach wedi'i hamcangyfrif yn oddeutu 1,000 o bobl yn uwch na'r ffigur a gyhoeddwyd yn wreiddiol ar 23 Tachwedd 2023.


## Prif bwyntiau

- Ar 30 Mehefin 2023, amcangyfrifwyd bod tua 3,164,000 o bobl yn byw yng Nghymru, sef cynnydd o 1.0% ers canol 2022, neu tua 32,000 yn fwy o bobl.
- Dyma'r un cynnydd canrannol ag a welwyd yn Lloegr rhwng canol 2022 a chanol 2023.
- Mae'r cynnydd yn y boblogaeth yng Nghymru rhwng canol 2022 a chanol 2023 wedi cael ei sbarduno gan gynnydd mewn mudo rhyngwladol a mewnol net.
- Amcangyfrifir bod pobl 65 oed neu hŷn yn cyfrif am ychydig yn fwy nag un rhan o bump (21.6%, neu 682,000 o bobl) o gyfanswm poblogaeth Cymru yng nghanol 2023.
- Yr awdurdod lleol yng Nghymru oedd â'r cynnydd canrannol mwyaf yn y boblogaeth rhwng canol 2022 a chanol 2023 oedd Caerdydd, sef cynnydd o

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

3.4%. Hwn oedd y cynnydd mwyaf ond un o unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr rhwng canol 2022 a chanol 2023.

## Ffigur 1: Amcangyfrifon poblogaeth yng Nghymru, 1991 i 2023 [Nodyn 1] [Nodyn 2]




Disgrifiad o'r Ffigur 1: Mae'r siart linell hon yn dangos bod poblogaeth Cymru wedi cynyddu, ers y flwyddyn hyd at ganol 1991, o 2.87 miliwn i 3.16 miliwn erbyn canol 2023.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth y SYG

[Nodyn 1] Mae'r ffigurau ar gyfer canol 2022 wedi'u diwygio.

[Nodyn 2] Nid yw'r echelin y ar y siart hon yn dechrau ar sero.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**


Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Cydrannau newid poblogaeth

Cydrannau newid poblogaeth yw'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys genedigaethau a marwolaethau (y cyfeirir atynt yn gyffredinol fel newid naturiol) a mudo net. Mae mudo wedi'i wahanu'n ddwy ran sef mudo mewnol (symudiadau rhwng awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig (DU)) a mudo rhyngwladol (symudiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill y byd y tu allan i'r DU).

## Ffigur 2: Mudo mewnol a rhyngwladol net yng Nghymru, canol 2002 i ganol 2023 [Nodyn 1]




Disgrifiad o'r Ffigur 2: Mae'r siart llinell hon yn dangos bod mudo rhyngwladol net yn y blynyddoedd diwethaf tua phedair gwaith yn uwch na'r cyfartaledd dros y ddau ddegawd blaenorol. Mae mudo mewnol net oddeutu dwywaith a hanner yn uwch na'r cyfartaledd dros y ddau ddegawd blaenorol.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.


Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth y SYG

[Nodyn 1] Mae’r ffigurau ar gyfer canol 2022 wedi’u diwygio.

Yn y flwyddyn hyd at ganol 2023, amcangyfrifir bod mudo rhyngwladol net i Gymru tua 23,600, sy'n debyg i ganol 2022. Yn y cyfnod rhwng canol 2011 a chanol 2021, roedd mudo rhyngwladol net blynyddol yn rhyw 5,200 ar gyfartaledd.

Roedd mudo mewnol net i Gymru (o wledydd eraill y DU) tua 17,600 yng nghanol 2023. Roedd hyn yn uwch na’r ffigur cyfatebol yng nghanol 2022, sef 10,700.

## Ffigur 3: Genedigaethau a marwolaethau yng Nghymru, canol 2002 i ganol 2023 [Nodyn 1]




Disgrifiad o'r Ffigur 3: Mae'r siart llinell hon yn dangos bod nifer y genedigaethau wedi gostwng yn raddol ers canol 2011 tra bod nifer y marwolaethau wedi


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

cynyddu.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth y SYG

[Nodyn 1] Nid yw'r echelin y ar y siart hon yn dechrau ar sero.

Yn y flwyddyn hyd at ganol 2023, roedd mwy o farwolaethau nag o enedigaethau yng Nghymru o hyd. Roedd tua 37,100 o farwolaethau yng Nghymru yn y flwyddyn hyd at ganol 2023, bron 1,500 yn fwy o farwolaethau nag yn y flwyddyn hyd at ganol 2022. Roedd hyn yn uwch na nifer y marwolaethau yng Nghymru am y flwyddyn hyd at ganol 2020 (36,400), a oedd yn cwmpasu ton gyntaf pandemig y coronafeirws (COVID-19).

Roedd nifer y genedigaethau yn y flwyddyn hyd at ganol 2023 tua 27,600, sef gostyngiad o 1,500 o'i gymharu â'r flwyddyn hyd at ganol 2022.


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Poblogaeth yn ôl oedran

### Ffigur 4: Poblogaeth yng Nghymru yn ôl grŵp oedran bras, canol 1991 i ganol 2023




Disgrifiad o'r Ffigur 4: Mae'r siart bar bentwr hon yn dangos, ers y flwyddyn hyd at ganol 1991, fod canran y boblogaeth 65 oed neu hŷn wedi cynyddu, tra bo canran y bobl rhwng 0 a 15 oed wedi gostwng ychydig. Mae canran y bobl rhwng 16 a 64 oed wedi aros yn debyg dros y cyfnod rhwng canol 1991 a chanol 2023.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth y SYG

[Nodyn 1] Mae’r ffigurau ar gyfer canol 2022 wedi’u diwygio.

Amcangyfrifir bod pobl 65 oed neu hŷn yn cyfrif am ychydig yn fwy nag un rhan o bump (21.6%, neu 682,000 o bobl) o gyfanswm poblogaeth Cymru yng nghanol 2023. Mae hyn wedi cynyddu 13.9% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ers canol 2013. Mae nifer y bobl 75 oed neu hŷn wedi cynyddu 22.5% yn ystod yr un cyfnod, o tua 270,000 o bobl yng nghanol 2013 i tua 331,000 o bobl yng


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

nghanol 2023.

Roedd 61.1% o'r boblogaeth rhwng 16 a 64 oed yng nghanol 2023 (tua 1,934,000 o bobl). Mae hyn wedi cynyddu 0.8% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ers canol 2013.

Roedd plant a phobl ifanc 0 i 15 oed yn cyfrif am y 17.3% arall o'r boblogaeth yng nghanol 2023 (tua 549,000 o blant a phobl ifanc). Mae hyn wedi gostwng 0.9% yn ystod y 10 mlynedd diwethaf, ers canol 2013.

## Poblogaeth yn ôl awdurdod lleol

Amcangyfrifir bod y boblogaeth wedi cynyddu ym mhob un ond un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru rhwng canol 2022 a chanol 2023, gyda'r cynnydd mwyaf yng Nghaerdydd (cynnydd o 3.4%), Abertawe (cynnydd o 1.9%) a Cheredigion (cynnydd o 1.6%).

Y cynnydd yn y boblogaeth yng Nghaerdydd oedd cynnydd mwyaf ond un mewn unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr rhwng canol 2022 a chanol 2023.


Merthyr Tudful yw'r unig awdurdod lleol yng Nghymru yr amcangyfrifir bod ei boblogaeth wedi gostwng rhwng canol 2022 a chanol 2023, gan ostwng 0.5%, neu tua 300 o bobl.

Yng Nghymru, gwelodd pob awdurdod lleol fudo rhyngwladol net positif yn y flwyddyn hyd at 2023, a gwelodd 20 allan o 22 awdurdod lleol fudo mewnol net positif. Gwelodd Merthyr Tudful a Chasnewydd fudo mewnol net negyddol yn y flwyddyn hyd at 2023.

Caerdydd a Chasnewydd oedd yr unig awdurdodau lleol a welodd fwy o enedigaethau na marwolaethau yng nghanol 2023.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Ffigur 5: Newid canrannol yn y boblogaeth yng Nghymru rhwng canol 2022 a chanol 2023, fesul awdurdod lleol




Disgrifiad o'r Ffigur 5: Mae'r map hwn yn dangos, rhwng canol 2022 a chanol 2023, mai Caerdydd sydd wedi gweld y newid canrannol mwyaf yn ei phoblogaeth. Merthyr Tudful oedd yr unig awdurdod lleol yng Nghymru i weld gostyngiad canrannol yn y boblogaeth.

Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth y SYG


**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

# Amcangyfrifon poblogaeth seiliedig ar ddata gweinyddol

Mae amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol (ABPEs) yn cael eu cynhyrchu gan ONS ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. **Ystadegau swyddogol o dan ddatblygiad (Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau) (OSR))** yw'r rhain tra bo'r SYG yn mireinio ei dulliau a'r ffynonellau data sy'n cael eu defnyddio. Nid ydynt yn disodli'r amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn swyddogol ac ni ddylid eu defnyddio i wneud penderfyniadau. Ni ddylid atgynhyrchu'r allbynnau hyn heb y rhybudd hwn.

Mae'r SYG yn anelu i'r ABPEs ddod yn amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn swyddogol yn 2025. Byddant yn ymgysylltu yn ystod tymor yr hydref 2024 i gasglu adborth ar y dull newydd, gan gynnwys gydag awdurdodau lleol fel y gallant ddefnyddio arbenigedd lleol wrth iddynt wella'r amcangyfrifon. Bydd yr adborth hwn gan ddefnyddwyr yn cael ei ddefnyddio fel rhan o'r meini prawf i gefnogi'r penderfyniad ynghylch pryd y daw'r ABPEs yn amcangyfrifon poblogaeth canol blwyddyn swyddogol. Maent hefyd wedi **gofyn am asesiad o'r ABPEs (OSR)** ac yn gweithio i fodloni'r safonau a ddisgwylir o **ystadegau swyddogol achrededig (OSR)** erbyn haf 2025.

Mae'r ABPEs yn cael eu cynhyrchu gan ddefnyddio dulliau sy'n adeiladu ar **y dull cydrannau ar gyfer carfan (fel yr eglurir yng nghanllaw dulliau amcangyfrifon poblogaeth SYG)**, a ddefnyddiwyd i gynhyrchu **amcangyfrifon poblogaeth swyddogol achrededig SYG** ers blynyddoedd lawer.

Mae gwahaniaethau rhwng y dulliau a'r ffynonellau data sydd wedi'u defnyddio yn golygu na ddisgwylir y bydd ABPEs yn cyfateb i'r amcangyfrifon poblogaeth swyddogol achrededig yn union. Mae'r ABPEs yn defnyddio dulliau newydd arloesol ac ystod ehangach o ffynonellau data gan ystyried cyfyngiadau ansawdd yn y data. Mae stociau poblogaeth yn cael eu cynhyrchu'n annibynnol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

ar gyfer pob blwyddyn, felly mae unrhyw gamgymeriad mewn blwyddyn yn llai tebygol o gael ei gyflwyno i'r nesaf. Gall stociau ddefnyddio ffynonellau data gweinyddol fel nad yw dulliau yn dibynnu ar ddata'r cyfrifiad. Mae'r SYG yn bwriadu cyhoeddi astudiaethau achos yn yr hydref i ddangos eu hyder yn y dull newydd.

Mae ABPEs canol 2023 wedi'u diweddaru yn cynnwys data ychwanegol sydd wedi dod ar gael ers i SYG gyhoeddi ei **ABPEs dros dro ar gyfer canol 2023 (SYG)** ym mis Rhagfyr 2023. Mae amcangyfrifon dros dro yn defnyddio data mewnwelediad cynnar, ochr yn ochr â rhai rhagdybiaethau am fudo.

Mae rhagor o wybodaeth am ABPEs ar gael yn erthygl y SYG ynghylch deall ABPEs ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Mae **erthygl gydymaith (SYG)** yn nodi manylion y datblygiadau mewn ffynonellau data.

Mae manylion pellach am sicrhau ansawdd, eu defnyddio'n briodol, eu cryfderau a'u cyfyngiadau, ar gael yn yr **Amcangyfrifon poblogaeth sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol yn Gwybodaeth Ansawdd a Methodoleg Cymru a Lloegr (QMI) (SYG)**.

# Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer y DU

## Amcangyfrifon poblogaeth diwygiedig y DU, rhwng canol 2012 a chanol 2022

Mae’r **SYG wedi rhyddhau cyfres ddiwygiedig lawn y DU ar gyfer amcangyfrifon poblogaeth**, yn awr bod yr Alban wedi gwneud gwaith ailsylfaenu yn dilyn ei chyfrifiad yn 2022. Mae'r amcangyfrifon diwygiedig yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gyfres amser a gyhoeddwyd ar 23 Tachwedd ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Amcangyfrifon poblogaeth y DU, canol 2023

Nod y SYG yw rhyddhau set lawn o amcangyfrifon poblogaeth y DU ar gyfer canol 2023 yn yr hydref 2024. Bydd hyn yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer Gogledd Iwerddon a gynhyrchir gan Asiantaeth Ystadegau ac Ymchwil Gogledd Iwerddon ac amcangyfrifon ar gyfer yr Alban a gynhyrchir gan Cofnodion Cenedlaethol yr Alban.

# Gwybodaeth am ansawdd a methodoleg

## Statws ystadegau swyddogol

Dylai'r holl ystadegau swyddogol ddangos safonau'r **Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau**.

Ystadegau swyddogol achrededig yw'r rhain, a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (y SYG). Cawsant eu hadolygu'n annibynnol gan y Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ym mis Tachwedd 2020. Maent yn cydymffurfio â'r safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir ar gyfer achredu. Os byddwn yn pryderu ynghylch a yw'r ystadegau hyn yn dal i fodloni'r safonau priodol, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Swyddfa Rheoleiddio Ystadegau ar unwaith. Gellir canslo neu atal achrediad unrhyw bryd os na chaiff y safonau uchaf eu cynnal, a'i adfer pan gaiff safonau eu hadfer.

Caiff ystadegau swyddogol achrededig eu galw'n Ystadegau Gwladol yn Neddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybodaeth am **hawlfraint**.

## Datganiad cydymffurfiaeth â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau

Mae ein hymarfer ystadegol yn cael ei reoleiddio gan y OSR. OSR sy'n gosod y safonau o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth yn y Cod y dylai pob cynhyrchydd ystadegau swyddogol gydymffurfio â nhw.

Caiff ein holl ystadegau eu cynhyrchu a'u cyhoeddi yn unol â nifer o ddatganiadau a phrotocolau er mwyn gwella dibynadwyedd, ansawdd a gwerth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn **Natganiad Cydymffurfiaeth** Llywodraeth Cymru.

Mae'r **ystadegau swyddogol achrededig (OSR)** yn dangos y safonau a disgwylir mewn perthynas â dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus yn y ffyrdd canlynol.

I gael gwybodaeth am sut y mae'r ystadegau swyddogol achrededig hyn, a gyhoeddir gan SYG, yn dangos y safonau a ddisgwylir ynghylch dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, **gweler adroddiad ansawdd a methodoleg SYG ar amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth**.

Mae croeso ichi gysylltu â ni yn uniongyrchol os oes gennych unrhyw sylwadau ynghylch sut rydym yn bodloni'r safonau hyn. Fel arall, gallwch gysylltu ag OSR drwy e-bostio **regulation@statistics.gov.uk** neu drwy fynd i'w gwefan.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant i Gymru. Y rhain yw creu Cymru fwy cyfartal, lewyrchus, cydnerth ac iach, sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1)

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

o’r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion (“dangosyddion cenedlaethol”) sy’n gorfod cael eu defnyddio at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni’r nodau llesiant, a (b) gosod copi o’r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) cyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Gosodwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn **adroddiad Llesiant Cymru**.

Fel dangosyddion cenedlaethol o dan y Ddeddf, rhaid cyfeirio atynt yn y dadansoddiadau o lesiant lleol a gynhyrchir gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus pan fyddant yn dadansoddi cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd.

Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid gosod cerrig milltir “...y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddent yn cynorthwyo i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant.” Wrth wneud hynny, rhaid i Weinidogion Cymru bennu sut y byddwn yn gwybod bod carreg filltir genedlaethol wedi'i chyflawni ac erbyn pryd y mae angen ei chyflawni.

Nid yw cerrig milltir cenedlaethol yn dargedau perfformiad ar gyfer unrhyw sefydliad unigol ond, yn hytrach, maent yn fesurau llwyddiant ar y cyd i Gymru.

Mae rhai o'r dangosyddion cenedlaethol a'r cerrig milltir cenedlaethol yn defnyddio amcangyfrifon canol-blwyddyn o'r boblogaeth fel enwadurion, i gyfrifo cyfraddau, er enghraifft.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybodaeth am **hawlfraint**.

Rhagor o wybodaeth am **Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd roi naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Manylion cyswllt

Ystadegydd: Dan Boon a Steph Harries
E-bost: **ystadegau.poblogaeth@llyw.cymru**

Cyfryngau: 0300 025 8099

SB 25/2024

> **Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
> Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

> **Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
> Ewch i **https://www.llyw.cymru/amcangyfrifon-canol-blwyddyn-or-boblogaeth-2023-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
> Gwybodaeth am **hawlfraint**.